**Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Cod Ymarfer diwygiedig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Cod Ymarfer uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.14.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Cod Ymarfer diwygiedig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â chodi ffioedd ac asesiadau ariannol o dan Rannau 4 a 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**03 Mehefin 2025**

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yn dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf, ynghyd â rheoliadau a chodau ymarfer a wneir oddi tani, yn sicrhau'r fframwaith statudol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru i gefnogi pobl o bob oed fel rhan o deuluoedd a chymunedau.

1.2. O dan y Ddeddf, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i godi ffi am y gofal a chymorth y maent yn ei ddarparu neu'n ei drefnu i berson, neu'r cymorth y maent yn ei ddarparu neu'n ei drefnu i ofalwr. Mae ganddynt hefyd ddisgresiwn i bennu cyfraniad neu ad-daliad ar gyfer taliadau uniongyrchol y maent yn eu darparu i berson i'w alluogi i drefnu ei ofal a chymorth ei hun. Mae hyn yn gymwys i ofal a chymorth yng nghartref y person, yn y gymuned, neu mewn gofal preswyl. Pan fo awdurdod yn dymuno arfer y disgresiwn hwn i bennu ffi, cyfraniad neu ad-daliad, mae rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn rheoli’r trefniadau sy'n gymwys i hyn.

1.3. Cafodd rheoliadau sy'n rheoli sut y mae awdurdodau lleol yn arfer eu disgresiwn i bennu ffi, cyfraniad neu ad-daliad eu gwneud o dan Ran 4 (diwallu anghenion) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o'r Ddeddf. Daeth y rhain i rym ar 6 Ebrill 2016. Cafodd Cod Ymarfer ar asesiadau ariannol a chodi ffioedd i gyd-fynd â'r rheoliadau hyn hefyd ei wneud o dan y Ddeddf a daeth i rym ar 6 Ebrill 2016.

1.4. Er mwyn cyflwyno nifer o newidiadau polisi ers i'r rheoliadau a wnaed yn wreiddiol o dan y Ddeddf ddod i rym, gwnaed nifer o ddiwygiadau drwy reoliadau a ddaeth i rym ar 10 Ebrill 2017, 9 Ebrill 2018, 8 Ebrill 2019, 6 Ebrill 2020, 12 Ebrill 2021, 11 Ebrill 2022, 10 Ebrill 2023, 8 Ebrill 2024 a 10 Ebrill 2025. Roedd y rhain yn angenrheidiol i ddiweddaru sawl set o reoliadau a wnaed o dan Rannau 4 a 5 o'r Ddeddf. Gwnaed hefyd ddiwygiadau i'r Cod Ymarfer i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan reoliadau. Daeth y diwygiadau i'r Cod i rym ar 10 Ebrill 2017, 9 Ebrill 2018, 8 Ebrill 2019, 6 Ebrill 2020, 11 Ebrill 2022 a 10 Ebrill 2023 yn y drefn honno.

1.5. Mae llunio'r Cod diwygiedig diweddaraf hwn yn gyfle i gydgrynhoi rheoliadau diwygio codi ffioedd ac asesiadau ariannol sydd wedi dod i rym ers y cyhoeddiad blaenorol, ac i gyfeirio at y rheoliadau hyn. Mae hefyd yn gyfle i ychwanegu cynllun cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol at y rhestr o gynlluniau y mae taliadau cyfalaf yn cael eu diystyru oddi tanynt yn unol â'r rheoliadau presennol. Mae'r Cod diwygiedig hefyd yn ymgorffori diwygiadau golygyddol ac arddulliol a wnaed i sicrhau cysondeb ac eglurder drwy'r Cod. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y Cod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn effeithiol. Diwygiadau i'r Cod yw testun y Memorandwm Esboniadol hwn.

1.6. Bydd y Cod diwygiedig yn dirymu'r Cod a ddyroddwyd ar 29 Mawrth 2023 (ISBN digidol 978-1-80535-713-1) (Fersiwn 7 LlC23-03-Ebrill 2023).

## 2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

2.1. Mae adran 146 o'r Ddeddf yn gosod y weithdrefn i'w dilyn cyn dyroddi a chymeradwyo'r Cod diwygiedig hwn. Bydd drafft o'r Cod diwygiedig hwn yn cael ei osod gerbron y Senedd am 40 diwrnod ac ar ôl hynny, os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ei ddyroddi.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae'r pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r Cod hwn wedi'i gynnwys yn adran 145 o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi, a diwygio o bryd i'w gilydd, un neu ragor o godau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Cynigir y bydd y Cod diwygiedig hwn yn dod i rym ar 21 Gorffennaf 2025 yn amodol ar ddilyn y weithdrefn a nodir yn adran 146 o'r Ddeddf.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Mae'r Cod wedi'i ddiwygio i ychwanegu cynllun cydnabyddiaeth ariannol a gyflwynwyd yn ddiweddar at y rhestr o fathau o gyfalaf y dylid eu diystyru'n llwyr yn yr asesiad ariannol ar gyfer codi ffioedd am bob math o ofal a chymorth.

4.2. Cyflwynwyd y cynllun yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 a ddaeth i rym ar 10 Ebrill 2025.

4.3. Y cynllun cydnabyddiaeth ariannol i'w ychwanegu at y Cod yw'r Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol.

4.4. Mae llunio Cod diwygiedig hefyd yn gyfle i ychwanegu cyfeiriad at reoliadau diwygio codi ffioedd ac asesiadau ariannol sydd wedi dod i rym ers y diwygiad blaenorol. I'r perwyl hwn, cyfeirir at Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosodd Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 yn y Cod diwygiedig fel y bo'n briodol. Gwneir y diwygiadau hyn i sicrhau bod y Cod yn glir ac yn gyflawn gan fod y rheoliadau yn diwygio'r prif reoliadau y cyfeirir atynt eisoes yn y Cod.

## 5. Ymgynghori

5.1. Gan fod y Cod diwygiedig yn cynnwys un diystyriad ychwanegol sydd eisoes wedi'i weithredu drwy reoliad, nid yw'r diwygiad i'r Cod yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru ac nid oes ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol wedi'i gynnal yn yr achos hwn.

5.2. Addasiadau technegol yn unig yw'r diwygiadau i'r Cod er mwyn sicrhau bod y Cod yn adlewyrchu'n gywir y rheoliadau diwygio priodol ac yn nodi'r cynllun cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol a nodir uchod.

## 6. RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Cyflwyniad

6.1. Mae diwygiadau i'r Cod yn cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

6.2. Mae llunio'r Cod diwygiedig diweddaraf hwn yn gyfle i gydgrynhoi rheoliadau diwygio codi ffioedd ac asesiadau ariannol sydd wedi dod i rym ers y cyhoeddiad blaenorol, ac i gyfeirio at y rheoliadau hyn. Mae hefyd yn gyfle i ychwanegu cynllun cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol at y rhestr o gynlluniau y mae taliadau cyfalaf yn cael eu diystyru oddi tanynt yn unol â'r rheoliadau presennol. Mae'r Cod diwygiedig hefyd yn ymgorffori diwygiadau golygyddol ac arddulliol a wneir i sicrhau cysondeb ac eglurder drwy'r Cod. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y Cod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn effeithiol.

## 7. Opsiynau a Manteision

7.1. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn mewn perthynas â gwneud y diwygiadau hyn:

- <u>Opsiwn 1</u> – "gwneud dim a chadw'r Cod presennol";
- <u>Opsiwn 2</u> – "gosod Cod diwygiedig" i gyflwyno diweddariadau sy'n adlewyrchu'n gywir y sefyllfa reoleiddio bresennol. Dyma’r opsiwn a ffefrir.

### Cefndir

7.2. Wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdodau lleol weithredu'n unol â'r gofynion yn y Cod hwn. Mae'r diwygiad arfaethedig i'r Cod yn cael ei gynnig i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir y drefn reoleiddio bresennol.

<u>Opsiwn 1 – gwneud dim a chadw'r Cod presennol</u>

7.3. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu nad ydym yn bwrw ymlaen â gosod a chyhoeddi Cod diwygiedig a'n bod yn cadw'r Cod presennol.

### Costau

7.4. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran costau ychwanegol i lywodraeth leol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### Manteision

7.5. Nid oes unrhyw fanteision hysbys sy'n deillio o beidio â chyhoeddi Cod diwygiedig ar hyn o bryd. Yn hytrach, mae risg nad yw awdurdodau lleol yn cymhwyso'n gywir y rheoliadau diweddaraf, nac yn gweithredu'n unol â nhw, gan nad yw'r rhain wedi'u nodi yn y Cod ar hyn o bryd.

<u>Opsiwn 2 – gosod Cod diwygiedig</u>

7.6. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bwrw ymlaen â gosod a chyhoeddi Cod diwygiedig i adlewyrchu'r rheoliadau cyfredol.

**Costau**

7.7. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran costau newydd i lywodraeth leol sy'n deillio o'r opsiwn hwn. Nid yw'r Cod diwygiedig yn cyflwyno unrhyw ofynion polisi newydd. Mae wedi'i ddiweddaru i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r rheoliadau presennol.

**Manteision**

7.8. Bydd cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r Cod yn sicrhau bod y rheoliadau diweddaraf yn cael eu nodi yn y Cod, gan sicrhau eglurder i awdurdodau lleol a chysondeb ar draws y fframwaith deddfwriaethol.

**Casgliad**

7.9. Gan ystyried y manteision sydd ynghlwm wrth sicrhau bod y Cod perthnasol yn darparu cyfeiriadau clir a chywir at y rheoliadau diweddaraf i awdurdodau lleol, argymhellir "Opsiwn 2 – gosod Cod diwygiedig".

## 8. Adolygu ar ôl gweithredu

8.1. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i fonitro swyddogaethau'r Ddeddf a gyflawnir gan awdurdodau lleol a chyrff eraill. Mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn i'r cyrff hyn adrodd ar eu dyletswyddau wrth roi'r Cod diwygiedig hwn ar waith.